TGAU

**3010N10-1**

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2025 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(W25-3010N10-1-MLP-A4-18)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.

Yn y cerddi, mae'r beirdd **yn sôn am fod mewn lle ar eich pen eich hun am wahanol resymau.**

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg a/neu'n wahanol.

Dylech wneud hyn drwy:

- Ysgrifennu am **gynnwys y ddwy gerdd** yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
  - Beth sy'n debyg / gwahanol yn lleoliad a sefyllfa'r unigolion yn y cerddi?
  - Beth yw neges y ddau fardd?
- Edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd** arddull / mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- Nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]

(Trowch y dudalen)

# GWELD Y GORWEL

**Yn rehab y colli nabod – sŵn traed**
**sy'n troi'r awr ddiddarfod,**
**sŵn y byw diflasa'n bod.**

**Yn rehab, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,**
**bod drwy'r daith hunanol**
**wna druggie'n dod o'i rigol.**

**Yn rehab o dan label, – yn nheilchion**
**ergydion ei gawdel**
**gwrid ei gariad yw gorwel.**

**Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,**
**rhanna ias cyfarfod,**
**y sŵn byw melysa'n bod.**

## ANEIRIN KARADOG

**(Trowch y dudalen)**

# GÊM

Mor braf yw sŵn clep drws fy llofft yn cau,
cael suddo’n fy sedd, a’r gêm yn parhau.

Dwi’n dewis fy wyneb, dewis fy myd;
drwy’r swits yn fy llaw, daw’r cyfan i gyd

yn fyw o fy nghwmpas. Y *PS4 –
fy llwyfan fy hunan i wella fy sgôr.

Rwyf fi mewn rhyw storm yn bell, bell i ffwrdd
a llais mam yn floedd fod bwyd ar y bwrdd.

Ymlaen ac ymlaen â’r chwarae fan hyn!
Does ots yn y byd am wynebau syn

fy nheulu o ’nghwmpas. Mae’r nos yn cau,
dwi’n sownd yn fy sedd a’r gêm yn parhau.

# GWIL TOMOS

## GEIRFA

- PS4 – peiriant chwarae gemau

**DIWEDD Y PAPUR**